# Taflen Ffeithiau Dyslecsia

Mae Dyslecsia yn gyflwr niwrowahanol gydol oes sy'n effeithio'n bennaf ar sgiliau sy'n gysylltiedig â darllen a sillafu geiriau yn gywir ac yn rhugl. Gall effeithio ar unrhyw un, waeth beth fo'u rhyw, ethnigrwydd neu grŵp cymdeithasol, a gall yr effeithiau fod yn ysgafn neu'n ddifrifol.

Gellir ei ystyried yn anhawster dysgu penodol oherwydd ei fod yn effeithio ar agweddau penodol ar ddysgu, ond nid yw'n gysylltiedig â gallu deallusol. Mae'n well gan rai pobl ddefnyddio'r term Gwahaniaeth Dysgu Penodol.

Gall arwyddion cynnar dyslecsia gynnwys gwahaniaethau datblygiadol mewn sgiliau lleferydd, iaith a llythrennedd. Nid oes angen diagnosis ffurfiol i gael cefnogaeth yn yr ysgol.

Mae dyslecsia yn 'anabledd cudd' – nid yw'r arwyddion yn amlwg bob tro. Mae'n fwy amlwg yn yr effaith a gaiff ar sgiliau darllen ac ysgrifennu. Gall hefyd effeithio ar brosesu gwybodaeth a chofio pethau, gan effeithio ar faint o wybodaeth y gall rhywun gofio a'r cyflymder y gall unigolyn gael mynediad at y wybodaeth honno a'i galw i gof.

Mewn oedolion, gall gwahaniaethau darllen, ysgrifennu a sillafu fod yn guddiedig. Bydd gan y rhan fwyaf o bobl strategaethau ymdopi, ond efallai y bydd rhai tasgau yn gofyn am fwy o amser ac ymdrech ac yn aml iawn ni fydd effaith hynny ar yr unigolyn yn amlwg i eraill. Efallai bydd rhai yn ceisio osgoi'r tasgau yma'n cyfan gwbl.

Mae'n bwysig deall bod dyslecsia yn effeithio ar bawb yn wahanol, a bydd gan bob unigolyn eu proffil eu hunain o gryfderau a heriau. Mae dyslecsia yn aml iawn yn cyd-ddigwydd ag anawsterau niwrowahanol eraill fel dyscalcwlia neu ddyspracsia/DCD sydd hefyd yn effeithio ar broffil rhywun.

Gall dyslecsia gyflwyno rhwystrau dyddiol mewn addysg, yn y gweithle neu ym mywyd bob dydd rhywun, ac mae llawer yn ei chael hi'n anodd ffynnu mewn system sydd yn aml iawn yn methu â'u cydnabod, eu gwerthfawrogi na'u hannog. Gall hyn effeithio ar hyder a hunan-barch, yn ogystal â chyfyngu dewisiadau bywyd.

Gall oedolion a phlant gael diagnosis gan Athro Arbenigol/Aseswr neu Seicolegydd Addysgol wedi cofrestru â'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Mae'r BDA yn argymell bod aseswyr yn meddu ar Dystysgrif Ymarfer Asesu. Gall cost fod yn ffactor cyfyngol ac ni fydd llawer o bobl ddyslecsig byth yn cael diagnosis ffurfiol.

Gall newidiadau neu addasiadau syml yn yr ysgol neu'r gweithle, yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn, gael effaith fawr ar fywydau pobl ddyslecsig.




British Dyslexia Association is a registered charity in England and Wales (289243).
Registered in England and Wales as a company limited by guarantee (1830587).



V261


British Dyslexia Association